

RHAGLEN

DATGAN BUDDIANNAU

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. CYNGOR SIR DDINBYCH – SWYDDOG PROSIECT CYDYMFFURFEDD CYNLLUNIO DROS DRO

Ymhellach i Gofnod Rhif 59 cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 19eg Medi 2018, croesawu Mr. Paul Mead a Mr. Wayne Williams, Cyngor Sir Ddinbych, i'r cyfarfod i roddi trosolwg i'r Aelodau o rôl y Swyddog Prosiect Cydymffurfedd Cynllunio Dros Dro newydd ei benodi.

3. ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU MEDI 2018

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

4. AWDURDODI TALIADAU / YCHWANEGIADAU I'R RHESTR CYFLENWYR CYMERADWY

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

5. DATGANIAD TALIADAU ARIAN MÂN – 1^{AF} EBRILL 2018 – 30^{AIN} MEDI 2018

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeëdig).

6. AROLWG O AELODAETH PWYLLGORAU

Ymhellach i Gofnod Rhif 7 Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Mai 2018 ac o ystyried etholiad dau gynghorydd newydd yn ddiweddar, arolygu aelodaeth pwyllgorau ar gyfer 2018/19 (aelodaeth pwyllgorau presennol ynghlwm).

7. CYNRYCHIOLWYR AR GYRFF ALLANOL – AELOD WRTH GEFN AR Y BWRDD TELEDU CYLCH CYFYNG

Ymhellach i Gofnod Rhif 14 Cyfarfod Blynnyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 16eg Mai 2018 ac ar ôl cais gan y cynrychiolydd presennol, penodi Aelod wrth gefn i'r Bwrdd Teledu Cylch Cyfyng.

8. YMGYNGHORIAD: COMISIWN DEMOCRATIAETH LEOL A FFINIAU CYMRU – AROLWG O DREFNIADAU ETHOLIADOL SIR DDINBYCH

Ystyried ac ymateb i fanylion yr adroddiad cynigion drafft a dderbyniwyd gan y comisiwn mewn perthynas ag Ardal y Rhyl (mae'r darn ar ardal y Rhyl yn amgaeedig).

Gellir gweld yr adroddiad llawn yn:

<http://ldbc.gov.wales/reviews/electoralreviews/curreviews/59860914/?lang=en>

9. EITEM GAN AELODAU

- (i) Y Cynghorydd Mrs. Diane King – Gofyn am gefnogaeth yr Aelodau i Gyngor Tref y Rhyl ystyried symud tuag at statws Cyngor “Sy'n Deall Dementia”.
- (ii) Y Cynghorydd Mrs. J. Butterfield – Gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref i godi ymwybyddiaeth cyrff priodol o fater sy'n ymwneud â darparu prydau ysgol i blant heb ddigon o greddyd ar gardiau clyfar yr ysgolion.
- (iii) Y Cynghorydd Mrs J. Butterfield – Gofyn am gefnogaeth y Cyngor Tref i godi ymwybyddiaeth cyrff priodol mewn perthynas â darparu prydau ysgol i blant yn ystod gwyliau'r ysgol a fyddai fel rheol yn gymwys i dderbyn prydau bwyd am ddim yn ystod y tymor.

10. EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

11. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

12. CYTUNDEB TELEDU CYLCH CYFYNG

Derbyn adroddiad cyfrinachol cynrychiolydd y Cyngor Tref ar y bartneriaeth Teledu Cylch Cyfyng.

13. CYLLID GRANT POSIBL

Derbyn adroddiad llafar cyfrinachol gan Glerc y Dref.

14. AILWAMPIO LLOCHESI BWS CYNGOR TREF Y RHYL

Ymhellach i Gofnod Rhif 12 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin 2018, penderfynu ar adroddiad cyfrinachol Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

15. TERFYNU'R CYFARFOD

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.